




WYTHNOS CYMRU CŴL



WYTHNOS GWEITHGAREDDAU 2017!

Byddwn yn dathlu **Wythnos Cymru Cŵl** yn Ysgol Abererch ar Mai 22-25. Rydym wedi cynnal yr wythnos hon ers tair blynedd bellach ac roedd y plant wedi mwynhau'r gweithgareddau cymaint fel yr oeddynt yn awyddus i ni drefnu rhywbeth tebyg eto eleni. Pwrpas yr wythnos yw annog y disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd a hyrwyddo gwaith Siarter Iaith Gwynedd. Rydym wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau hwyllog yn ystod yr wythnos fydd yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am draddodiadau a diwylliant Cymru!

DYDD GWENER EISTEDDFOD FFUG

Diwrnod o gystadlu gwirion! Y gwirionaf fydd yn ennill pwyntiau i'w tŷ! Mae'r plant yn cael eu rhannu yn 3 tŷ- Penychain, Afonwen a Glandon.
Rhestr testunnau ar daflen arall!

*Eifionnydd
'A llonydd gorffenedig
Yw llonydd y lôn goed,
O fwa'i tho plethedig,
I'r glaslwr dan fy nhroed.'*
R. Williams Parry

Thema'r wythnos eleni fydd adnabod ein miltir sgwâr.

Nos Lun, Mai 22

Cynhelir mabolgampau'r Urdd Cylch Llŷn ar gaeau Ysgol Glan y Môr ar ôl ysgol. Mwy o wybodaeth i ddilyn.



Dydd Mercher, Mai 24
Bl 3-6

TAITH GERDDED AR HYD Y LÔN GOED

Bydd y disgyblion yn cael cyfle i fwynhau taith gerdded ar hyd y Lôn Goed. Byddant angen gwisgo esgidiau addas i gerdded a dod a chap haul gyda nhw a photel o ddŵr.

Bydd dosbarth cyfnod sylfaen yn cael mynd i'r goedlan yn y pentref i gael helpa drysor yn y goedwig!



CYSTADLEUAETH POBI!

Bl2-6

Pobi anifail o'r goedwig gyda toes! Bydd y plant yn cael eu rhannu yn dîmau- mwy o wybodaeth i ddilyn!

ARDDANGOSFA O WAITH LLAW A CHYNNYRCH YR EISTEDDFOD YSGOL A

CHELF YR URDD

PRYNHAWN MAWRTH,

MAI 23

2:30 - 3:30PM YN NEUADD YR YSGOL

Dydd Mawrth, Mai 23

CINIO MR URDD



Cân y dydd! Bydd cyfle i'r disgyblion rannu eu hoff ganeuon gan artistiaid Cymraeg gyda'u dosbarth yn ystod yr wythnos!

